# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 20/10/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Gwasanaethau Iechyd Rheng Flaen yng Nghasnewydd

***13. Rosemary Butler***: *Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i ddiogelu gwasanaethau iechyd rheng flaen yng Nghasnewydd yn yr hinsawdd economaidd bresennol. OAQ(3)1725(HSS)*

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Yr wyf yn cymryd camau i ddiogelu gwasanaethau'r rheng flaen ar draws Cymru. Bydd grymuso'r rheng flaen yn un o'r prif feysydd craidd y bydd y fframwaith strategol pum mlynedd sydd wedi'i lunio ar gyfer gwasanaeth, gweithlu ac ariannu'r GIG yng Nghymru yn canolbwyntio arno. Bydd staff clinigol, a staff gweinyddol, yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt er mwyn arwain y gwaith o newid a darparu gofal o ansawdd uchel.

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ(3)1698(HSS), yn ôl.*

### Strategaeth Nyrsio Ysgolion

***15. Helen Mary Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Nyrsio Ysgolion. OAQ(3)1686(HSS)*

**Edwina Hart:** Yr ydym yn gwneud cynnydd da ar fodloni'r ymrwymiad yn ein rhaglen 'Cymru'n Un'. Mae rhai penodiadau wedi cael eu gwneud eisoes ac mae byrddau iechyd lleol ar draws Cymru wedi cyrraedd amrywiol gamau yn eu prosesau recriwtio mewnol.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

### Cymorth i Fusnesau yng Ngorllewin Cymru

***11. Helen Mary Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth i fusnesau yng Ngorllewin Cymru. OAQ(3)1687(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae creu'r amgylchedd priodol i bob busnes ffynnu mewn economi wedi'i hadfywio yn ganolog i'n dull newydd, 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd'. Bydd buddsoddi mewn seilwaith, ac er mwyn sicrhau amgylchedd y gall busnesau dyfu ynddo, o fudd i bob

busnes, beth bynnag y bo maint y sector.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(3)1681(ECT), yn ôl.*

**Lefelau Diweithdra yng Nghymru**

***13. Mark Isherwood:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau diweithdra yng Nghymru. OAQ(3)1672(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yn ôl y data diweddaraf ar y farchnad lafur, gydol y flwyddyn yng Nghymru, bu cwymp o 11,000 yn nifer y di-waith.

**Cefnogaeth i Ymchwil a Datblygu**

***14. Val Lloyd:*** *A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ymchwil a Datblygu. OAQ(3)1644(ECT)*

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Lesley Griffiths):** Yr ydym yn awyddus i wella lefel ac effaith fasnachol ymchwil a datblygu yng Nghymru. Hyn oedd diben yr adolygiad ymchwil a datblygu. Mae 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' hefyd yn cydnabod mai arloesi ac ymchwil a datblygu yw'r prif ffactorau sy'n llywio cynhyrchiant a thwf economaidd.

**Dyfodol Ardrethi Busnes**

***15. Peter Black:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Ardrethi Busnes. OAQ(3)1678(ECT)* ***Trosglwyddwyd i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.***

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Hysbysais Aelodau'r Cynulliad ar 8 Medi 2010 am gynnydd mewn rhyddhad rhag ardrethi busnes sy'n golygu y bydd y rhan fwyaf o fusnesau yng Nghymru naill ai'n osgoi talu ardrethi busnes neu'n talu llawer llai am 12 mis o 1 Hydref 2010 ymlaen. Bydd uchafswm y gwerth ardrethol ar gyfer yr eiddo nad yw'n gymwys am dalu unrhyw ardrethi busnes yn codi i £6,000, a bydd band tapr o ryddhad rhwng 100 y cant a 0 y cant hyd at uchafswm o £12,000 o 1 Hydref 2010 am flwyddyn.